**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 191 (Cy.36)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU
# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU
# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Swyddogaethau Cymorth i Deuluoedd) (Cymru) (Diwygio) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *29 Ionawr 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *1 Chwefror 2011* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Mawrth 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 58(2) o Fesur a Theuluoedd (Cymru) 2010(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Swyddogaethau Cymorth i Deuluoedd) (Cymru) (Diwygio) 2011 a deuant i rym ar 1 Mawrth 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**2.** Yn Nhabl 1 o Atodlen 1 i Reoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Swyddogaethau Cymorth i Deuluoedd) (Cymru) (Diwygio) 2010(**2**) dileer y geiriau —

> "a.82 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 (*Cydweithrediad rhwng cyrff GIG ac awdurdodau lleol*)".

(**1**) 2010 nawm.1.
(**2**) S.I. 2010/1701(Cy.162)

*Gwenda Thomas*
Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

29 Ionawr 2011

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (Swyddogaethau Cymorth i Deuluoedd) (Cymru) 2010 drwy dynnu cyfeiriad at adran 82 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 yn y rhestr o swyddogaethau awdurdodau lleol sy'n gymwys mewn perthynas â phlant (Tabl 1 o Atodlen 1) ac a ragnodir fel “swyddogaethau cymorth i deuluoedd” at ddibenion adran 58 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.